OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 450 (Cy.40)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*19 Chwefror 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*22 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*18 Mawrth 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 4(1)(a) a (2) ac adran 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r personau y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan adran 4(3) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 18 Mawrth 2008.

(2) Dim ond i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru sy'n awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun y mae adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys(**3**) ac mae'n cael effaith mewn perthynas â'r flwyddyn 2008—2009 a'r blynyddoedd ariannol sy'n dilyn.

Dangosyddion perfformiad

2. Mae'r dangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt i fesur perfformiad pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru wrth iddynt arfer eu swyddogaethau wedi'u pennu drwy hyn yn—

(a) Atodlen 1 (Lleihau Risg a Diogelwch Cymunedol); a

(b) Atodlen 2 (Ymateb Effeithiol).

(**1**) 1999 p.27.
(**2**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) 2004 p.21.

Brian Gibbons
Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

19 Chwefror 2008